



CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant: Gradd Unigol CRYNODEB O'R ASESU HAF 2022 YN UNIG

Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

80 marc

Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â thwf, datblygiad a llesiant pobl.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant

Asesiad di-arholiad: tua 10 awr

48 marc

Tasg 1: Darparu Gwasanaethau (tua 10 awr)

Asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn lleol ac yn genedlaethol.

Ni fydd Tasg 2 yn cael ei hasesu yn 2022, a bydd hyn yn golygu y bydd cyfanswm yr amser asesu a amcangyfrifir ar gyfer Uned 2 yn cael ei leihau o 25 awr i 10 awr.

Mae hyn yn ddilys ar gyfer haf **2022 YN UNIG**.

Bydd modd cofrestru ar gyfer y fersiwn addasedig hwn o TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **yn 2022 yn unig**. Dylai ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer y cymhwyster yn 2023 ddefnyddio'r [fanyleb](#) gymeradwy.



CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant: Dwyradd CRYNODEB O'R ASESU HAF 2022 YN UNIG

Unedau 1 a 2 yn ogystal â:

Uned 3: Iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr 21ain ganrif

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

80 marc

Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Uned 4: Hybu a chefnogi iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Asesiad di-arholiad: tua 20 awr

110 marc

Gweithgaredd i fodloni angen

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â gweithgareddau ystyrion er mwyn bodloni angen penodol grŵp targed sydd wedi'i ddewis, ac sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch.

Ni asesir yr is-fwled cyntaf: Ni fydd 'dadansoddi data/ystadegau demograffig er mwyn ymchwilio i dueddiadau iechyd a thueddiadau cymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt' yn cael ei asesu yn rhan (b), a bydd hyn yn golygu y bydd yr amser asesu a amcangyfrifir yn cael ei leihau o 25 awr i 20 awr.

Mae hyn yn ddilys ar gyfer haf **2022 YN UNIG**.

Bydd modd cofrestru ar gyfer y fersiwn addasedig hwn o TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **yn 2022 yn unig**. Dylai ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer y cymhwyster yn 2023 ddefnyddio'r [fanyleb](#) gymeradwy.